



# Gwybod am Goed

## Dyma restr o 10 o goed cyffredin Cymru.

Chwiliwch mewn geiriadur neu lyfr addas arall am yr enw Saesneg yna ysgrifennwch hwnnw wrth ochr pob un. Byddwch wedyn yn medru chwilio am fwy o wybodaeth mewn llyfrau a safleoedd gwe yn y ddwy iaith.

	<b>Cymraeg</b>	<b>Saesneg</b>		<b>Cymraeg</b>	<b>Saesneg</b>
<b>1</b>	Bedwen	.....	<b>6</b>	Derwen	.....
<b>2</b>	Castanwydden	.....	<b>7</b>	Draenen	.....
<b>3</b>	Celynnen	.....	<b>8</b>	Gwernen	.....
<b>4</b>	Collen	.....	<b>9</b>	Masarnen	.....
<b>5</b>	Criafolen	.....	<b>10</b>	Ywen	.....

Faint wyddoch chi am y coed hyn?

Dewiswch y goeden gywir fel ateb i'r cwestiynau canlynol ac ysgrifennwch yr enw yn y blwch lliw.

<b>1</b>	Rydym ni a'r wiwer yn hoffi bwyta cnau y goeden hon.	.....
<b>2</b>	Mae rhisgl y goeden hon yn olau fel arian.	.....
<b>3</b>	Mae hi'n byw yn hen ac yn aml yn tyfu wrth yr eglwys.	.....
<b>4</b>	Diolch i hon am goncyrs i chwarae â nhw yn yr hydref.	.....
<b>5</b>	Roedd pobl ers talwm yn coelio ei bod hi'n cadw'r diafol i ffwrdd.	.....
<b>6</b>	Enw ffrwythau'r goeden hon yw <i>mes</i> .	.....
<b>7</b>	<i>Sycamorwydden</i> ydy enw arall y goeden hon.	.....
<b>8</b>	Hon sy'n rhoi aeron coch i ni i addurno ein cartrefi at y Nadolig.	.....
<b>9</b>	Gallwch ddod o hyd i hon yn tyfu mewn tir gwlyb.	.....
<b>10</b>	Gwylwch eich bysedd – mae gan hon hen bigau cas.	.....

**Atebion A**

	<i>Saesneg</i>		<i>Saesneg</i>
1	Birch	6	Oak
2	Chestnut	7	Thorn (Haw- / Black-)
3	Holly	8	Alder
4	Hazel	9	Sycamore
5	Rowan Mountain Ash	10	Yew

**Atebion B**

1	Collen	6	Derwen
2	Bedwen	7	Masarnen
3	Ywen	8	Celynnen
4	Castanwydden	9	Gwernen
5	Criafolen	10	Draenen